# Ymateb Llais i ymgynghoriad: strategaeth genedlaethol ar gyfer atal ac ymateb i gam-drin rhywiol plant (2025–2035)

## Am Llais

Llais yw'r corff annibynnol sy'n adlewyrchu barn ac yn cynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yng Nghymru yn eu gwasanaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a gofal cymdeithasol.

Rydym yn gweithredu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rydym yn gweithio gyda phobl a chymunedau ym mhob rhan o Gymru fel y gellir clywed llais pawb, a'i ddefnyddio, i yrru cynllunio, dylunio, datblygu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bawb. Rydym, yn:

- estyn allan i glywed gan bobl yn ein cymunedau lleol drwy raglen barhaus o weithgareddau ymgysylltu. Rydym yn gwneud hyn fel bod pobl yn gwybod ac yn deall am yr hyn a wnawn, ac i gasglu eu barn a'u profiadau o wasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol, gan gynnwys ymweld â lleoedd lle mae pobl yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- defnyddio'r hyn a glywn i helpu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddeall yn well sut mae'r rhai ohonom a allai fod angen gwasanaethau, ac sy'n eu defnyddio, yn meddwl bod gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion, yn y ffordd sydd bwysicaf iddyn nhw. Rydym yn helpu i sicrhau bod y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cymryd camau i wella pethau lle mae angen hyn.

  Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag arweinwyr gwasanaethau

iechyd a gofal cymdeithasol pan fyddant yn ystyried gwneud newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau, fel bod pobl a chymunedau yn cael dweud eu dweud o'r cychwyn cyntaf.

- darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sy'n rhad ac am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol i helpu pobl i godi eu pryderon am wasanaethau iechyd a chymdeithasol.

## Cefndir

Rydym wedi bod yn gweithredu yng Nghymru ers 1 Ebrill 2023. Mae ein hymateb yn tynnu ar yr hyn rydyn ni wedi'i glywed gan bobl am eu profiadau o wasanaethau iechyd a chymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n adlewyrchu ein rôl o ran cefnogi pobl drwy eiriolaeth cwynion, ein gweithgareddau ymgysylltu ehangach, a gwneud cynrychioliadau i wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys diogelu, gwasanaethau cymorth ac integreiddio systemau.

Mae'n golygu na allwn ateb pob cwestiwn, nac ateb pob cwestiwn yn y ffordd y gofynnwyd am yr ymatebion, gan efallai nad yw pobl wedi dweud wrthym am rai meysydd yn y strategaeth genedlaethol ar gyfer atal ac ymateb i gam-drin rhywiol plant (2025–2035) (Y Strategaeth).

## Adran 1

Rydym yn cefnogi'n gryf weledigaeth Llywodraeth Cymru y dylai pob plentyn yng Nghymru fyw'n rhydd rhag niwed cam-drin rhywiol plant, ac y dylai pawb yr effeithir arnynt gael eu hamddiffyn a'u cefnogi drwy gydol eu hoes.

Rydym yn cytuno bod angen strategaeth 10 mlynedd i gyflawni'r raddfa o

newid sydd ei hangen. Gall cam-drin rhywiol plant gael effeithiau gydol oes, a gall ymatebion tymor byr neu dameidiog danseilio adferiad. Mae hyn yn gydnaws â meddwl hirdymor Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant.

Mae strategaeth ddegawd o hyd yn caniatáu trawsnewid systemau cynaliadwy, integreiddio gwell ar draws gofal iechyd a gofal cymdeithasol, a chyfranogiad ystyrlon dioddefwyr-goroeswyr.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried adolygiadau a diweddariadau rheolaidd i'r Strategaeth a bod yn agored gyda phobl a chymunedau y gallai'r strategaeth, a'i chamau gweithredu, newid dros amser i ymateb i angen a'r cyd-destun sy'n newid yn barhaus (yn enwedig ynghylch cam-drin ar-lein).

Rydym yn croesawu'r amcanion strategol a'r camau gweithredu blaenoriaeth a amlinellir yn y strategaeth ddrafft. Maent yn adlewyrchu'n fras yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym sydd bwysicaf iddyn nhw.

Fodd bynnag, credwn y byddai'r strategaeth yn elwa o fwy o bwyslais ar y canlynol:

## Integreiddio system gyfan

Mae pobl yn dweud wrthym yn aml pa mor bwysig yw cael gwasanaethau cydgysylltiedig sy'n ymateb i'w hanghenion. Er bod y syniad o ddull system gyfan yn gwneud synnwyr ar bapur, yn ymarferol, nid yw'n cael ei deimlo'n gyson. Rydym yn aml yn clywed sut mae integreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn anwastad ac yn fregus.

Mae profiadau o ddull system gyfan, sy'n canolbwyntio ar y person, yn

amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar ddaearyddiaeth, hyder proffesiynol, a diwylliant sefydliadol.

Dylai'r strategaeth gynnwys mecanweithiau i nodi ac ymdrin ag amrywiadau mewn ymarfer a chryfhau rôl Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gyflawni'r camau gweithredu. Gall diffinio sut olwg sydd ar gwasanaeth integredig, system gyfan o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth helpu i arwain y ffrydiau gwaith a'u hatebolrwydd.

## Mynediad, cyfathrebu a gofal sy'n canolbwyntio ar y person

Rydym yn aml yn clywed gan bobl am arosiadau hir am wasanaethau cymorth, ymdeimlad o fod angen bod mewn argyfwng cyn cael eu gweld, a chyfathrebu gwael - gan gynnwys rhwng sefydliadau neu adrannau o'r un sefydliad. Dyma rai o'r pryderon mwyaf rydyn ni'n clywed amdanyn nhw.

Rydym yn clywed, er bod pobl yn aros am gymorth, nad oes ganddyn nhw'r wybodaeth gywir bob amser nac yn gwybod ble i ddod o hyd iddo ac maen nhw'n hoffi cael diweddariadau rheolaidd ynghylch pryd y gallen nhw gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

Mae rhai pobl yn dweud wrthym y gall gwasanaethau deimlo'n rhy feddygol ac amhersonol, gyda chefnogaeth emosiynol neu barhad gofal cyfyngedig.

Dylai'r strategaeth wneud mwy i annog ac ymgorffori gofal perthynol, tosturiol, sy'n seiliedig ar drawma ar draws pob lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol trwy ddatblygu'r gweithlu, gan ganolbwyntio ar gyfathrebu

gwell a phwysigrwydd parhad, a dull cynhwysol sy'n seiliedig ar hawliau.

## Lleisiau pobl ifanc a dolenni adborth

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i sefydlu Grŵp Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc ac ymgorffori canfyddiadau o'r adolygiad llenyddiaeth. Mae hyn yn hanfodol.

Fodd bynnag, rydym yn argymell bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu hymgorffori nid yn unig mewn ymgynghori, ond mewn cyflawni, monitro a gwerthuso.

Rydym hefyd yn awgrymu y gellir defnyddio data adborth a chwynion Awdurdodau Lleol, er eu bod yn fwy cyffredinol, fel mecanwaith i nodi bylchau, profiadau gwael a chyfleoedd i wella gwasanaethau.

Os nad ydyn nhw wedi bod yn rhan o hyn eto, efallai y bydd Cafcass Cymru a Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol yn gallu rhoi cyngor a darparu data a mewnwelediad i gefnogi'r Strategaeth. Gallai'r un peth fod yn wir am wasanaethau eiriolaeth plant yng Nghymru fel y Gwasanaeth Cynghori Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS), TGP Cymru, Voices from Care Cymru, SNAP, MEIC ac Advocacy Matters Wales.

## Data a deallusrwydd

Rydym yn cefnogi datblygiad set ddata graidd a fydd yn helpu i sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chefnogi gan wybodaeth feintiol ac ansoddol.

Byddem yn gofyn i brofiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gael eu cynnwys yn y set ddata, ynghyd â dangosyddion eraill, fel ei bod yn adlewyrchu profiadau bywyd plant, teuluoedd ac oedolion sy'n goroesi.

Dylid sicrhau bod data ar gael i'r cyhoedd i gefnogi tryloywder ac atebolrwydd.

## Ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn croesawu ymrwymiad y strategaeth i groestoriadolrwydd ac arfer cynhwysol.

Gan fod profiadau o gam-drin rhywiol plant yn cael eu llunio gan ffactorau sy'n gorgyffwrdd fel anabledd, ethnigrwydd, hunaniaeth rhywedd a thlodi, byddem yn gofyn a yw dadansoddiad croestoriadol wedi'i ymgorffori, neu a ddylai fod, ym mhob ffrwd waith, gan sicrhau fformatau hygyrch ar gyfer pob adnodd (e.e. Hawdd ei Ddarllen, Iaith Arwyddion Prydain, iaith sy'n cael ei llywio gan drawma), a chynnwys gwasanaethau'r trydydd sector ac eiriolaeth wrth gynllunio cymorth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Byddem hefyd yn gofyn bod unrhyw grŵp cynghori plant a phobl ifanc yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru er mwyn sicrhau bod pobl ifanc o wahanol gefndiroedd yn llywio camau gweithredu a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth.

## Edrych ymlaen

Mae Llais yn edrych ymlaen at gefnogi gweithrediad y Strategaeth ac mae wedi ymrwymo i gydweithio â Llywodraeth Cymru, partneriaid diogelu, a chymunedau i sicrhau bod y strategaeth yn cyflawni newid ystyrlon.

6 Hydref 2025